



Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 3.15 p.m. ddydd Iau 23 Tachwedd 2023 yn Neuadd Vivian, Canolfan Dylan Thomas, Abertawe

Yn bresennol:

Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans (Is-Ganghellor)
Justin Albert
Natalie Beard
Arwel Ellis Owen
Yr Athro Kyle Erickson
Taya Gibbons
Uzo Iwobi
Rowland Jones
Tim Llewelyn

Yr Athro Conny Matera Rogers
Nigel Roberts
Emlyn Schiavone
Dr Liz Siberry
Maria Stedman
Yr Hybarch Randolph Thomas
Dr Kerry Tudor

Arsylwyr PC
Dr Stuart Robb

Yn gweinyddu:

Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Dr Andrew Cornish, Prifathro, Coleg Sir Gâr
Rebecca Doswell, Clerc
Shone Hughes, Pennaeth Staff
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu

Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Yr Athro Mirjam Plantinga, PIG (Profiad Academaidd)
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)
Caryl Bond

Rhif Cofnod	Prif bwyntiau trafod	Cam gweithredu/pend erfyniad
23.89 Ymddiheuriadau am absenoldeb	Ymddiheurodd y Cyngor am absenoldeb gan Geraint Roberts, Dr Peter Spring.	
23.90 Datgan buddiannau	DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o Fuddiannau fel y nodwyd yn adroddiad y Clerc (CO576).	
23.91 Adroddiad Bwrdd Coleg Sir Gâr	Eitem GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod.	
23.92 Cydsyniad i benodi Cadeirydd CSG	<p>YSTYRIODD y Cyngor bapur ar benodi Cadeirydd Bwrdd Coleg Sir Gâr (CO578).</p> <p>Mae paragraff 24 o'r protocol rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) a Choleg Sir Gâr (CSG) (gan gyfeirio at Erthygl 14 yn Erthyglau Cymdeithasu CSG) yn darparu ar gyfer proses benodi Cadeirydd Bwrdd CSG, sy'n gofyn am gydsyniad y Brifysgol fel yr Aelod.</p> <p>CYTUNODD y Cyngor i</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodi'r broses i benodi Cadeirydd Bwrdd Coleg Sir Gâr; • nodi cymeradwyaeth dros dro Bwrdd Coleg Sir Gâr; • rhoi caniatâd i Fwrdd Coleg Sir Gâr benodi John Edge yn Gadeirydd ar y Bwrdd o 1 Ionawr 2024 ymlaen. <p>CYMERADWYODD y Cyngor hefyd, yn unol â'r arfer, y caiff Cadeirydd y Bwrdd ei benodi'n aelod annibynnol o'r Cyngor.</p>	
23.93 Adroddiad y Pwyllgor Academaidd	<p>DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2023 (CO579).</p> <p>Cyfeiriodd yr aelodau at y fframwaith cydffederal a dyfarnu lefel 3 trwy'r Brifysgol. Nododd y DIG fod angen i'r Brifysgol gael ei chydabod gan Gymwysterau Cymru cyn iddi gael gwneud hynny ond bod ystyriaeth bellach ar y mater ar waith.</p> <p>Adroddodd yr Is-Ganghellor y byddai'r PIG yn canolbwyntio ar gydberthynas gydffederal ag Athrofeydd Technegol Prifysgol Cymru (UWTI), y Llyfrgell Genedlaethol ac ymddiriedolaeth GIG Felindre ac y byddai'n cynhyrchu adroddiad sy'n ymgorffori opsiynau a chanlyniadau adroddiad Lusher a CETR.</p>	
23.94	Eitem GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod.	

Rhif Cofnod	Prif bwyntiau trafod	Cam gweithredu/pend erfyniad
Adroddiad yr Is-Ganghellor		
23.95 Adnoddau a Pherfformiad	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad llafar ar y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (CO580). Adroddodd Cadeirydd RPC nad oedd y cyfrifon blynyddol wedi'u cwblhau eto gan nad oedd yr Archwilwyr Allanol wedi cwblhau eu harchwiliad. Nododd yr heriau wrth recriwtio myfyrwyr i gampysau Cymru a chanmolodd y gwelliannau wrth gadw myfyrwyr.	
23.96 Adroddiad ariannol ac adroddiad llif arian	Eitem GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod.	
23.97 Datganiad ASSUR	Adroddodd y Clerc y byddai datganiad ASSUR yn bwydo i mewn i'r cyfrifon terfynol ac y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor gyda'r cyfrifon blynyddol.	
23.98 Adroddiad monitro KPI	YSTYRIODD a CHYMERADWYODD y Cyngor adroddiad monitro KPI (CO583).	
23.99 Adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a Risg	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 29 Medi 2023. 12 Hydref a 20 Tachwedd 2023 (CO584). Adroddodd Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg (PÂR) fod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi wedi cyfarfod i ystyried yr adroddiad Archwilio Mewnol ar gydymffurfiaid Ystadau. Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor y byddai'r holl adroddiadau sicrwydd cyfyngedig yn aros ar agenda'r PAR nes bod yr holl argymhellion wedi'u cwblhau. Adroddodd Cadeirydd y PAR fod y Pwyllgor wedi derbyn cyflwyniad yn y cyfarfod ar 20 Tachwedd ynghylch y system Rheoli Cyfleusterau â Chymorth Cyfrifiadurol (CAFM) Ystadau. Adroddodd Cadeirydd yr ARC y byddai cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr i ystyried ac argymhell y cyfrifon blynyddol ac adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Allanol wrth y Cyngor ac i gwblhau adroddiad a hunanwerthusiad blynyddol y pwyllgor. Cadarnhaodd y Clerc y byddai adroddiad Archwilio Mewnol Ystadau yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ystadau yn ei gyfarfod nesaf.	
23.100	Eitem GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod.	

Rhif Cofnod	Prif bwyntiau trafod	Cam gweithredu/pend erfyniad
Adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol		
23.101 Adroddiad archwilio allanol	Byddai'r adroddiad Archwilio Allanol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor gyda'r cyfrifon blynyddol terfynol.	
23.102 Adroddiad blynyddol Pwyllgor Archwilio a Risg	Byddai'r adroddiad Archwilio a Risg yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor gyda'r cyfrifon blynyddol terfynol.	
23.103 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2023	CYMERADWYODD y Cyngor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023.	
23.104 Atal datganiad atebolwydd a monitro canlyniadau	CYMERADWYODD y Cyngor ddatganiad atebolwydd Prevent a'r adroddiad canlyniadau monitro (CO588).	
23.105 Adroddiad blynyddol y Senedd	CYMERADWYODD y Cyngor adroddiad blynyddol y Senedd (CO591).	
23.106 Enwebiad Athro Emeritws	Datganodd yr Athro Kyle Erickson ei ddiddordeb yn yr eitem hon. CYMERADWYODD y Cyngor enwebiad yr Athro Emeritws (CO592).	
23.107 Iechyd a Llesiant Myfyrwyr	CYMERADWYODD y Cyngor adroddiad Iechyd a Llesiant Myfyrwyr (CO593).	
23.108 Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad	YSTYRIODD y Cyngor adroddiad y pwyllgor Adnoddau a pherfformiad a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2023 (CO594)	
23.109 Cynllun Ffioedd a Mynediad	CYMERADWYODD y Cyngor Ddatganiad a gwerthusiad Sicrwydd Blynyddol y cynllun Ffioedd a Mynediad, fel yr argymhellwyd gan RPC, a oedd yn rhan o'r gyfres o ddogfennau a oedd i'w cyflwyno i CCAUC yn rhan o'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol. (CO597).	
23.110	YSTYRIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2023 (CO596).	

Rhif Cofnod	Prif bwyntiau trafod	Cam gweithredu/pend erfyniad
Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu		
23.111 Cwynion a ddaeth i law	DERBYNIODD y Cyngor grynoded blynyddol o gwynion 2022/23, a ystyriwyd yn fanwl gan NGC (CO597).	
23.112 Adroddiad Hunanasesu a chynllun Gwella Ansawdd ar gyfer ESFA	DERBYNIODD y Cyngor adroddiad Hunanasesiad a'r cynllun Gwella Ansawdd ar gyfer Darpariaeth Prentisiaeth ESFA a gyflwynwyd ar gyfer adolygiad Ofsted (CO598)	
23.113 Y diweddaraf am adolygiad Ofsted	<p>DERBYNIODD y Cyngor ddiweddariad llafar gan y PIG (Profiad Academaidd) a'r Cyfarwyddwr Profiad Academaidd ar yr adborth a dderbyniwyd yn dilyn Adolygiad Ofsted a gynhaliwyd yr wythnos honno.</p> <p>Adroddodd y CPA fod y Brifysgol wedi derbyn adborth rhagorol gyda chanlyniad da (safon uchel) dros dro ar gyfer pob categori. Roedd y panel wedi canmol y Brifysgol gan nodi bod ei safonau yn agos at fod yn rhagorol.</p> <p>Adroddodd y CPA fod y panel wedi canmol prosesau diogelu effeithiol y Brifysgol a'i fod wedi canmol staff a Llywodraethwyr y Brifysgol am ei hymrwymiad i fyfyrwyr a phrentisiaethau..</p> <p>Adroddodd y PIG (PA) y byddai'r adroddiad drafft yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2024 a'r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno yn y gwanwyn.</p> <p>Diolchodd y PIG (PA) i'r Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor am eu rhan yn y broses.</p>	
23.113 Datgan buddiannau	<p>Derbyniodd y Cyngor y datganiad buddiant ychwanegol canlynol :</p> <p>Yr Athro Kyle Erickson – eitem 23.106 – Enwebiad Athro Emeritws.</p> <p>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau eraill yn ystod y cyfarfod.</p>	
23.114 Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf	<p>Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 25 Ionawr 2024.</p> <p>Nododd yr Aelodau y gellir galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor i gadarnhau'r Datganiadau Ariannol.</p>	

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30